# PWYLLGOR CRONFA BENSIWN CLWYD
# DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2019

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiwn Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Iau, 28 Tachwedd 2019

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Aaron Shotton (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Haydn Bateman, Ralph Small, Adele Davies-Cooke, Kevin Hughes – wedi gadael ar ôl eitem 87.

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun).

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Mr Mark Owen (Cynrychiolydd Cyflogwyr Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Mr Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Elaine Williams (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau).

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Huw Llewellyn Jones, y Cynghorydd Nigel Williams, y Cynghorydd Andrew Rutherford.

**HEFYD YN BRESENNOL:**

Panel Ymgynghorol yn cynnwys: Colin Everett (Prif Weithredwr)-wedi gadael ar ôl eitem 87, Philip Latham (Rheolwr Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr yn cynnwys: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Nick Buckland (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Iain Campbell (Ymgynghorydd Buddsoddiadau Cronfa – Mercer), Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraidd – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig), Paul Vaughan (Cyfrifydd Cronfa Clwyd).

Siaradwyr gwadd yn cyflwyno yn cynnwys: Sasha Mandich (Russell Investments) ac Eamonn Gough (Link Fund Solutions

## 84 DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS GWRTHDARO O RAN CYSYLLTIAD)

Datganodd Mrs McWilliam gysylltiad gyda'r cynlluniau caffael. Datganodd Mr Buckland, Mr Harkin a Mr Campbell gysylltiad gyda'r un eitem hefyd. Cadarnhawyd y byddai'n rhaid i'r pedwar ohonynt adael pe byddai unrhyw drafodaethau mewn perthynas â'r testun hwn.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad arall.

## 85 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 4 Medi 2019.

Diolchodd Mr Hibbert i'r Cadeirydd am godi mater cynrychiolaeth aelodau'r Cynllun ar JGC WPP a nododd y byddai'n cael ei ystyried eto ym mis Ionawr 2020. Nododd y Cadeirydd byddai'n codi'r mater eto yng nghyfarfod nesaf JGC.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn a chymeradwyo cofnodion 4 Medi 2019 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 86 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 7 Hydref 2019.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Derbyn a chymeradwyo cofnodion 7 Hydref 2019 a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 87 ADOLYGIAD O'R STRATEGAETH FUDDSODDI, YN CYNNWYS POLISI BUDDSODDI CYFRIFOL

Mynegodd Mr Latham bwysigrwydd Dyrannu Asedau Strategol gan y bydd canlyniadau'r Prisiad Actiwaraidd nesaf yn cael eu heffeithio gan y penderfyniadau a wneir heddiw. Yn ffodus, mae'r Gronfa yn dechrau gyda strategaeth amrywiol iawn felly mae'r addasiadau yn fwy o brosesau bychan nag un newid mawr. Amlinellodd y gofynnir i'r Pwyllgor gytuno ar y newidiadau arfaethedig i'r strategaeth yn y cyfarfod hwn ac yna byddai Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror.

Cyflwynodd Mr Harkin y diwygiadau arfaethedig i'r Dyraniad Asedau Strategol gan fynegi'r pwyntiau allweddol canlynol;

- Mae'r Gronfa wedi'i hariannu'n well heddiw ond mae'r Gronfa yn parhau i fod mewn diffyg felly mae angen i ni fuddsoddi i gyflawni'r lefel ofynnol o elw.
- Mae'r dull integredig yn golygu cael y balans cywir o Fuddsoddiadau, Cyllid a Chyfamod. Mae'r Gronfa ar y blaen o gymharu â chronfeydd eraill gan fod strategaeth Llwybr Cyrraedd Targed eisoes ar waith, lle bo cronfeydd eraill yn dechrau meddwl am reoli risg yn awr.
- Yr hyn sy'n allweddol yw canolbwyntio ar elw hir dymor, drwy osod dyraniad asedau yn seiliedig ar ragolygon marchnad 10 mlynedd Mercer.
- Mae marchnadoedd preifat wedi bod yn hynod lwyddiannus ar gyfer y Gronfa; yr her yw sicrhau y gallwn barhau gyda'r hyn sydd gennym.
- Mae'r elw a ddisgwylir yn cael ei gynhyrchu drwy ddatganiad ystadegol gan Mercer. Bydd gan Mercer ragolygon nad ydynt yn cael eu gwireddu bob tro ond mae'n sicrhau bod dyraniad asedau yn effeithiol.
  Eglurodd Mr Harkin y disgwyliwyd i'r strategaeth fuddsoddi bresennol a osodwyd yn 2016 ddarparu 6.1% y flwyddyn yn seiliedig ar ragolygon y farchnad ar y pryd. Ond, yn seiliedig ar ragolygon y farchnad yn 2019 byddai'r elw a ddisgwylir yn gostwng i 5.4% y flwyddyn. Y neges yw y dylid disgwyl llai o elw yn y dyfodol. Felly, bydd yn hanfodol sicrhau bod dyraniad asedau yn gallu cyflawni elw sy'n

fwy na chyfradd ddisgownt yr Actiwari h.y. CPI a 3.2% sydd wedi'i gynnig. Mynegodd Mr Harkin fod yr hinsawdd bresennol mewn perthynas â buddsoddiadau yn ansicr felly mae'n bwysig canolbwyntio ar y llwybr tymor hir, ond bydd hyn yn anoddach yn y dyfodol.

Eglurodd Mr Harkin fod y cynigion allweddol wedi'u nodi yn yr adroddiad eglurhaol a'r cyflwyniad ond fe'u crynhodd yn fras fel;

1. Buddsoddi mwy mewn marchnadoedd sydd yn dod i'r amlwg.
2. Dadfuddsoddi'n llwyr o Gronfeydd Twf Amrywiol.
3. Ailstrwythuro mandad Cronfeydd Mantoli.
4. Ail-gategoreiddio Marchnadoedd Preifat;
5. Creu portffolio buddsoddi lleol / effaith
6. Adolygu Fframwaith Arian Parod a Rheoli Risg (CRMF).

Gofynnodd y Cynghorydd Bateman beth yw Buddsoddiadau Effaith. Nododd Mr Buckland bod y buddsoddiadau hyn yn ceisio gwneud cyfraniadau cadarnhaol i gymdeithas yn ogystal â diwallu gofynion risg / elw buddsoddiad. Mae buddsoddiad cyfrifol yn ymwneud â sicrhau cynaliadwyedd hirdymor, ond, Buddsoddiadau Effaith yw'r cam nesaf, lle byddant yn canolbwyntio ar wneud effaith gadarnhaol a chynhyrchu elw ar gyfer y Gronfa.

Holodd Mr Hibbert sut mae'r Gronfa yn mynd i gofnodi ac adrodd yr effaith. Nododd Mr Buckland eu bod yn ystyried sut y gellir gwneud hyn orau, a bydd yn cael ei nodi yn y Polisi Buddsoddi Cyfrifol, ar ôl trafodaethau pellach gyda swyddogion.

Holodd y Cadeirydd pa fuddsoddiadau presennol fydd yn symud i'r portffolio newydd hwn. Nododd Mr Buckland bod ystod o bethau i'w hystyried, gyda 17 nod yn y maes hwn. Mae nifer o fuddsoddiadau presennol y gellir eu symud i'r portffolio newydd ac, er nad yw hyn wedi'i gytuno gyda'r swyddogion eto, roedd yn debygol y byddai oddeutu 4% o'r dyraniad targed yn cael ei gyflawni drwy fuddsoddiadau presennol.

Nododd Mr Everett y bu mewn cyfarfod yn ddiweddar ac fe nodwyd bod nifer sylweddol o gyfleoedd buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy. Eglurodd Mr Everett y gallai'r rhain fod yn gyfleoedd priodol ar gyfer y Gronfa a gofynnodd sut y gellir sicrhau bod y cyfleoedd hyn yn cael eu hystyried gan y Gronfa ar gyfer y dyfodol. Cytunwyd y bydd Mr Harkin a Mr Everett yn cael trafodaeth ffurfiol ar yr agwedd hon fel rhan o gyfarfodydd Panel Ymgynghorol y Gronfa Bensiynau a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i'r Pwyllgor fel y bo'n briodol.

Nododd Mr Buckland ar sleid 21 y cyflwyniad, yr elw a ddisgwylir ar gyfer y Gronfa ar y strategaeth arfaethedig newydd yw 5.6% y flwyddyn sy'n gynnydd o 0.2% yn seiliedig ar strategaeth bresennol 2016.

Eglurodd Mr Campbell wrth asesu risg y strategaeth fuddsoddi mae'n bwysig mesur hyn mewn modd cyson, a defnyddiodd Mercer ymagwedd VaR. VaR yw Gwerth ar Risg ac mae'n cynrychioli risg y golled ar gyfer buddsoddiadau. Mae'n rhagweld faint y gall cyfres o fuddsoddiadau ei golli gyda thebygolrwydd penodol, o fewn cyfnod amser penodol. Po uchaf y VaR, yr uchaf yw'r risg. Nododd Mr Campbell fod angen i'r Gronfa gymryd y risg er mwyn ennill lefel briodol o elw yn uwch na'r gyfradd ddisgownt, sef CPI a 2.25% ar gyfer croniad gwasanaeth yn y dyfodol ym mhrisiad 2019.

Eglurodd Mr Campbell bod sleid 25 yn adlewyrchu'r risgiau allweddol y mae'r Gronfa yn eu hwynebu o fewn Dyraniad Asedau. Mae'r risgiau y mae'r Gronfa yn eu hwynebu'n cael eu cymell, yn bennaf, gan chwyddiant ynghyd â chyfraddau llog i'r graddau lle y gellir cyflawni gwir elw pendant. Mae risg ecwiti yn risg sylweddol arall. Eglurodd bod y bariau llwyd ar y siart yn nodi gostyngiad mewn risg, ac mae'r bariau du yn nodi cyfanswm y risg. Mae cynnydd mewn risg o £7m ac mae'r siart ar y dde yn dangos beth sy'n cymell hynny. Cadarnhaodd Mercer eu bod yn gyfforddus gyda hyn a derbyn bod cymryd risg pan y disgwylir derbyn enillion yn briodol.

Nododd y Cynghorydd Bateman yn ei safbwynt ef mai dim ond cynyddu y gall y risg o ran cyfraddau llog hir dymor a chwyddiant. Gofynnodd beth yw'r gyfradd llog ar hyn o bryd. Cytunodd Mr Campbell gyda'r Cynghorydd Bateman h.y. bod risg, ac fe gadarnhaodd ar arenillion gilt 10 mlynedd, mae'r gyfradd llog yn llai na 1%. Pwysleisiodd Mr Campbell pa mor anodd yw rhagweld cyfraddau llog, ac mai dyna pam fod gan y Gronfa fframwaith rheoli risg ar waith sy'n ceisio rheoli cryn dipyn o'r risg.

Cadarnhaodd Mr Harkin fod gan Mercer ofod ar gyfer y risg nad yw pethau'n mynd fel y disgwylir a gwnaed hyn hefyd wrth osod Dyraniad Asedau Strategol 2016.

Eglurodd Mr Campbell bod sleid 29 yn dangos y dadfuddsoddiad arfaethedig o Gronfeydd Twf Amrywiol. Nid yw'r dadfuddsoddiad yn seiliedig ar berfformiad gwael y dosbarth hwn yn unig, ond oherwydd bod Mercer yn credu y gall y Gronfa feddu ar bortffolio amrywiol heb DGF a thrwy'r portffolio Syniadau Gorau ar gyfer buddsoddi tactegol sy'n perfformio'n well.

Holodd Mr Hibbert am y cyfnod pontio arfaethedig i'r strategaeth newydd, a mynegi pryderon o ran yr amser a gymerir a chostau gweithredu. Cytunodd Mr Harkin ei bod yn hanfodol osgoi oedi, felly bydd Mercer yn gweithredu'r dyraniad cyn gynted ag y bo modd.

Parhaodd Mr Harkin i drafod ailstrwythuro arfaethedig y portffolio Cronfeydd Mantoli. Nododd y cynigir y byddai'n cynnwys cynnyrch Man Group Solutions yn unig sydd â nifer o gynnyrch sy'n arwain y farchnad. Cadarnhaodd Mr Harkin mai'r cynnig yw ailstrwythuro'r portffolio presennol er mwyn i'r Gronfa wneud arbedion ffioedd sylweddol, gan gynnwys netio ffioedd perfformiad. Os yw'r portffolio newydd yn perfformio ar lefel gyffredinol, bydd y Gronfa yn talu ffi berfformio; ond os nad yw, ni fyddent yn talu'r ffi.

Holodd Mr Hibbert a fydd y ffioedd yn uwch os yw perfformiad y Gronfa yn uwch. Nododd Mr Harkin y ddau beth y bydd y Gronfa yn talu amdanynt; ffi i Man Group i reoli'r asedau a ffi ar gyfer mandad y Cronfeydd Mantoli. Nes bo'r Gronfa yn derbyn yr isafswm o ran elw sy'n ofynnol, ni fydd y Gronfa yn talu'r ffi berfformio. Gelwir hyn yn netio ffi berfformio ac mae'n arbediad sylweddol iawn o gymharu â'r sefyllfa bresennol lle y telir y rheolwyr hyd yn oed os nad yw'r targedau perfformiad yn cael eu diwallu.

Holodd Mrs McWilliam am y strwythur newydd ac a yw Mercer yn disgwyl newid mewn elw. Nododd bod yr arbediad o ran ffi yn wych os yw'r elw yn mynd i fod yn debyg neu'n fwy. Cadarnhaodd Mr Harkin y dyluniwyd y strwythur newydd i gyflawni elw sy'n uwch na'r disgwyl ynghyd ag arbed ffioedd.

Parhaodd Mr Buckland drwy'r cyflwyniad a thynnu sylw at bedair ymagwedd allweddol ar gyfer buddsoddi cyfrifol; integreiddio, stiwardiaeth, buddsoddi a sgrinio. Gwnaeth sylwadau ar y gwaith y mae'r Gronfa eisoes wedi'i wneud yn y maes allweddol

hwn, gan gynnwys bod yn Lofnodwr Haen Un i God Stiwardiaeth FRS y DU, ac nid oes llawer o Gronfeydd LGPS wedi cyflawni hyn.

Aeth ymlaen i drafod y broses y bu'r Gronfa drwyddi yn ystod y flwyddyn i gyflawni'r polisi arfaethedig a oedd yn yr Atodiad i'r adroddiad Pwyllgor.

Cynigodd Mr Hibbert y gellir newid yr ymadrodd 'risg ariannol hir dymor' i 'risgiau ariannol' drwy'r polisi cyfan, ac yn benodol ar dudalen 33 a 34, gan ei fod yn dadlau bod risgiau byr dymor hefyd. Cytunwyd ar y newid hwn a bydd y polisi'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu hyn.

Daeth y cyflwyniad i ben drwy edrych ar y potensial ar gyfer arbedion o ran ffioedd o fewn y Strategaeth arfaethedig a lle bo'r arbedion hynny'n cael eu cynhyrchu. Yn olaf, nododd yr amserlen weithredu o ran sut y byddai'r Gronfa yn symud i'r Strategaeth newydd ac a fyddai'n cael ei gweithredu drwy WPP. Ni fydd Cronfeydd Mantoli a CRMF yn cael eu gweithredu drwy'r WPP ar hyn o bryd.

Roedd y Pwyllgor yn gyfforddus â'r Dyraniad Asedau Strategol arfaethedig a'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyodd y Pwyllgor y Dyraniad Asedau Strategol (fel y nodwyd ym mharagraff 3.02) y Gronfa fel sail ar gyfer ymgynghoriad gyda Chyflogwyr y Gronfa.
(b) Ystyriodd y Pwyllgor a chymeradwyo'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol fel sail ar gyfer ymgynghoriad gyda Chyflogwyr y Gronfa.

## 88 CYFUNO BUDDSODDIADAU YNG NGHYMRU (YN CYNNWYS CYFLWYNIADAU GAN LINK FUND SOLUTIONS A RUSSELL INVESTMENTS)

Nododd Mr Latham mai'r ymgynghorydd goruchwylio presennol yw Hymans Robertson a benodwyd ar gyfer y cyfnod sefydlu a phontio cychwynnol. Ond, bydd y gronfa ar y cyd yn penodi ymgynghorydd ar gyfer monitro parhaus a datblygiad pellach WPP. Bydd canlyniadau caffael yn cael eu cytuno yng nghyfarfod nesaf JGC ar 9 Rhagfyr 2019. Soniwyd hefyd na all Mr Latham na Mrs Fielder fynychu cyfarfod nesaf y JGC oherwydd amseru'r cyfarfod.

Darparodd Mr Gough drosolwg bras o'i rôl sef rheolwr perthynas yn Link Fund Solutions ac mae'n gyfrifol am ddiogelwch a goruchwylio'r Gronfa. Mynegodd Mr Gough y pwyntiau allweddol canlynol ynglŷn â'r WPP;

- Mae Cronfeydd Cyfran 1 yn cynnwys dwy gronfa ecwiti a ddechreuodd ar ddiwedd 2017.
- Cymeradwyodd FCA y Cronfeydd ym mis Gorffennaf 2018.
- Roedd diwrnod cyntaf rheolwyr WPP ym mis Medi 2018.
- Cafwyd lansiad cyntaf y Gronfa ym mis Ionawr 2019.
- Penodwyd BlackRock i bontio'r cronfeydd incwm sefydlog.
- Mae Karl Midl wedi gweithio i Link Fund Solutions ers dros 20 mlynedd ac wedi'i benodi fel Rheolwr Gyfarwyddwr Link Fund Solutions ers canol 2019.
- Mae cronfa ecwiti twf byd-eang yn fwy cyfarwydd i'r WPP ac mae 3 rheolwr gwaelodol (roedd 2 o'r rhain yn reolwyr presennol).

- Y gronfa ecwiti cyfleoedd byd-eang yw Cronfa Syniadau Gorau Russell Investments gyda 7 o reolwyr gwaelodol.

Holodd Mr Hibbert a yw WPP wedi cytuno i rannu costau a sut y cânt eu rhannu. Nododd Mr Gough o ymagwedd pwynt pontio, bydd pob awdurdod yn gyfrifol am ail-lunio eu portffolio. Felly, mae'r gost yn gymesur â maint pob Cronfa. Nododd Mrs Fielder fod ganddi fanylion yr holl gostau hyn ac y gall nodi cyfanswm y cost pontio. Crybwyllodd mai'r unig gost sy'n cael ei rhannu'n gyfartal ar draws yr wyth Cronfa yw cost llywodraethu.

Ail-bwysleisiodd Mr Mandich tri amcan cydgyfrannu yr oedd yr WPP yn eu gweithredu:

1. Creu graddfa.
2. Galluogi cyd-fuddsoddi.
3. I roi gwell strwythur llywodraethu yn ei le.

Pwysleisiodd bod y Gronfa yn gronfa lai mewn cyd-gronfa fwy ond yn y pendraw mae hyn wedi cynorthwyo'r Gronfa i arbed arian, drwy gael cost is drwy faint mwy.

Roedd yr adolygiad o berfformiad ar sleid 8 y cyflwyniad yn dangos mai elw net dros ben hyd yma yw 0.92%, sy'n cynrychioli o ganol mis Chwefror 2019 hyd ddiwedd Hydref, ac mae hyn yn ddechrau gwych.

Cadarnhaodd Mr Gough bod Cyfran 1 a 2 wedi'u cwblhau. Cyfran 3 yw cronfa incwm sefydlog gyda Hymans Robertson wedi'u penodi fel ymgynghorwyr pontio ac maent yn dymuno lansio hyn ym mis Ionawr 2020.

Ar sleid 16, nododd Mr Mandich eu bod y cyflogi 5 i 6 o reolwyr ar gyfer Is-gronfa'r Farchnad sy'n dod i'r amlwg i gyflawni patrwm llyfn o elw.

Gofynnodd Mrs McWilliam i Mr Gough egluro risgiau'r digwyddiad diweddar yn ymwneud â Woodford Investment Management i'r Pwyllgor. Nododd Mr Gough bod cyfyngiadau o ran yr hyn y gall ei ddweud ond mae hyn yn parhau. Mae Neil Woodford yn reolwr buddsoddi sy'n ymwneud â nifer o Gronfeydd, un ohonynt yn gronfa ecwiti sydd wedi'i rhewi ac yn awr yn cael ei chau gan Link Fund Solutions. Mae cryn dipyn o sylw yn y cyfryngau ar gyfer hyn, ond yr effaith ar WPP ac felly'r Gronfa yw efallai na fydd Karl Midl a benodwyd yn ddiweddar ar gael cymaint ag yr oedd. Awgrymodd Mrs McWilliam bod Gweithgor y Swyddogion yn ymchwilio'r mater.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi'r adroddiad.
(b) Bod y Pwyllgor wedi derbyn cyflwyniad gan Weithredwr WPP.
(c) Bod y Pwyllgor wedi trafod a chytuno ar unrhyw sylwadau neu gwestiynau ar gyfer y WPP.

## 89 PRISIAD ACTIWARAIDD 2019

Darparodd Mr Middleman ddiweddariad byr ar Brisiad Actiwaraidd 2019. Nododd bod popeth yn mynd yn dda hyd yma a bod Mercer wrthi yn cytuno ar gyfraniadau

terfynol gyda chyflogwyr. Daeth cyfnod ymgynghori Datganiad y Strategaeth Gyllid (FSS) i ben ar 15 Tachwedd, ond mae adborth gan gyflogwyr yn cael ei gasglu a bydd yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor mis Chwefror i roi cymeradwyaeth derfynol ar gyfer yr FSS.

Pwynt trafod allweddol oedd lwfans ar gyfer dyfarniad McCloud. Y diweddariad ar ddyfarniad McCloud yw na fydd unrhyw ddatrysiad yn hysbys tan Ebrill 2021 ar y cynharaf. Roedd Mr Middleman yn amau y byddai'n hwyrach na hyn ond y byddai yn cael ei gyflwyno mewn pryd ar gyfer y prisiad actiwaraidd nesaf yn 2022.

Agwedd allweddol fodd bynnag yw'r gwaith gweinyddol sy'n ofynnol i weithredu'r newidiadau ac fe ddisgwylir iddynt fod yn sylweddol. Argymhellodd yn gryf bod Cronfeydd yn trafod gyda chyflogwyr ac yn gofyn am ddata aelodau ar gyfer aelodau yr effeithir arnynt gan ddyfarniad McCloud. Bydd angen i'r tîm gweinyddol roi hyn ar yr agenda yn awr i roi digon o amser. Nododd Mrs Williams ei fod eisoes yn uchel ar yr agenda ar gyfer y tîm.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar y canlyniadau a'r cynnydd sy'n cael ei gyflawni gyda'r prosiect prisiad actiwaraidd.

## 90 DIWEDDARIAD ADOLYGIAD AVC 2019

Darparodd Mr Buckland grynodeb byr o'r digwyddiadau o ran Adolygiad AVC 2019. Ar hyn o bryd mae 600 o aelodau'r Gronfa gydag AVC gyda Prudential a 6 aelod y Gronfa gyda AVC gydag Equitable Life. Fel y nodwyd yn y cyfarfod diwethaf bydd cronfeydd Equitable Life yn cael eu trosglwyddo i Utmost Life. Y cam nesaf ar gyfer buddsoddiadau Equitable Life yw gwrandawiad llys a ddechreuodd yr wythnos ddiwethaf, lle y ceisir cymeradwyaeth ffurfiol i weithredu'r newidiadau. Gan dybio y ceir cymeradwyaeth, bydd hyn yn weithredol o'r 1 Ionawr 2020. Mae cyfres o nodiadau gwybodaeth a fydd yn cael eu hanfon at aelodau yn rhoi gwybod iddynt am y newidiadau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad a'r atodiad cysylltiol.

## 91 DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU (AR ÔL EITEM 87)

O ran yr eitem hon ar y rhaglen, pwysleisiodd Mr Latham adroddiad cam 2 Llywodraethu Da SAB a gyhoeddwyd ar 15 Tachwedd ac sydd ynghlwm yn Atodiad 4.

Yna eglurodd bod gofynion CMA ym mharagraff 1.06 yn ymwneud â'r strategaeth fuddsoddi a'r fframwaith rheoli risg. Mae angen dwy gyfres o amcanion ac argymhellir y dylid dirprwyo'r swyddogaeth o bennu'r amcanion hyn i Mr Latham a Mrs Fielder.

O ran paragraff 1.09, cadarnhaodd Mr Latham bod arolwg blynyddol y Rheoleiddiwr Pensiynau wedi'i anfon.

Cyfeiriodd Mr Hibbert at nodyn cyfarfod SAB LGPS o'r 6 Tachwedd 2019 a holi a oedd llythyr wedi'i dderbyn gan WPP ynglŷn â Chronfeydd sy'n cydgyfrannu sydd heb

Gynrychiolydd Aelod y Cynllun. Nid oedd Mr Latham a Mrs Fielder yn gwybod a dderbyniwyd llythyr ond byddant yn cadarnhau ac yn adrodd yn ôl i Mr Hibbert.

Nododd Mr Latham bod y polisi hyfforddiant wedi'i ddiweddaru ac yn benodol y cyfarfod LGA ym mis Ionawr 2020 a chyfarfod LGC ym mis Mawrth 2020 y gallai aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd eu mynychu.

Nododd y tor-rheolau, a bod tuedd gyffredinol tor-rheolau yn adlewyrchu bod y nifer yn lleihau sy'n gyfeiriad cadarnhaol ar gyfer y Gronfa.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ystyriodd y Pwyllgor y diweddariad a chyflwyno sylwadau, gan nodi argymhellion cam 2 Llywodraethu Da SAB (paragraff 1.08). Atgoffwyd y Pwyllgor hefyd i gadarnhau a fyddant yn mynychu'r ddwy gynhadledd fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.12.

(b) Cymeradwyodd y Pwyllgor y defnydd o ddirprwyaeth frys i gyflawni penodiad Ymgynghorydd Buddsoddi a'r Ymgynghorydd Annibynnol yn ystod mis Mawrth 2020 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.01.

(c) Cymeradwyodd y Pwyllgor bod gosod amcanion at ddibenion CMA yn cael ei ddirprwyo i Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd yn unol â'r atodlen newydd o ddirprwyaethau (fel y nodir ym mharagraff 1.06).

## 92 MATERION CYFREDOL Y CYNLLUN PENSIWN LLYWODRAETH LEOL

Nodwyd yr adroddiad ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nododd aelodau'r Pwyllgor yr adroddiad hwn a gwneud eu hunain yn ymwybodol o'r gwahanol faterion sy'n effeithio ar yr LGPS a'r Gronfa.

## 93 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF O RAN GWEINYDDU A GOHEBIAETH (AR ÔL EITEM 91)

Darparodd Mrs Williams wybodaeth am eitemau yn ymwneud â gweinyddu a chyfathrebu o'r chwarter diwethaf. Mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar Gynllun Busnes 2019/20. Nododd Mrs Williams efallai y bydd terfynau amser yn llithro wrth weithredu newidiadau buddion goroeswyr oherwydd bod angen i'r tîm gweinyddol fynd yn ôl drwy'r holl aelodau yn y Gronfa i benderfynu a oedd gan yr aelodau unrhyw berthynas ac felly unrhyw fuddion goroesi yn y Gronfa.

Roedd ymarfer cysoni GMP yn cael ei ddarparu'n allanol gan Equiniti ac mae'n awr yn y cam olaf. Roedd yr ymarfer yn cynnwys cadarnhau bod cofnodion GMP HMRC yr un fath â'r Gronfa. Bu heriau yn yr ymarfer a bydd yn cynnwys yr angen i ad-dalu tandaliadau ac ystyried adennill gordaliadau ar gyfer rhai pensiynwyr ac aelodau dibynnol, ynghyd â chynyddu neu ostwng pensiynau yn y dyfodol. Oherwydd y terfynau amser tynn, gofynnir i'r Pwyllgor ganiatau gwneud y penderfyniadau hyn drwy ddirprwyaethau brys, ac yna byddai diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ym mis Chwefror.

Holodd Mr Hibbert am y cynllun o ran ad-ennill unrhyw ordaliadau y mae'r Gronfa wedi'i gwneud i bensiynwyr o ganlyniad i GMP anghywir. Awgrymodd Mrs McWilliam ei bod yn hynod debygol mai'r penderfyniad fydd na fydd y Gronfa yn ceisio ad-daliad ar gyfer unrhyw ordaliadau. Mae'r ymagwedd hon wedi'i hargymell gan LGA yn dilyn awgrym gan y Llywodraeth. Cadarnhawyd hefyd na fydd y DWP yn ad-dalu unrhyw ordaliadau oherwydd data anghywir.

Nododd Mrs Williams bod y Gronfa yn gobeithio gweithredu popeth erbyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror fel nad yw'r Gronfa yn wynebu cyfnod cynnydd pensiwn arall h.y. Ebrill 2020.

Ar dudalen 170, gofynnodd y Cynghorydd Bateman am y wybodaeth ddiweddaraf o ran y broses recriwtio. Nododd Mrs Williams y bu nifer o gyfweliadau mewnol ac fe gafwyd dau ymgeisydd llwyddiannus. Roedd y ddau wedi darparu cyfweliad cryf felly byddai'r swydd yn cael ei rhannu rhwng y ddau ymgeisydd. Mae gan un swydd ran-amser yn y tîm ymddeoliad, a bydd un yn gweithio gyda'r tîm agregu yn rhan-amser. Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth y Gronfa yn nodi bod angen mwy o rolau arweiniol, felly roedd Mrs Williams yn credu y byddai hyn yn gweithio'n dda iawn.

Ychwanegodd Mrs Williams bod seiberdroseddu'n risg newydd, bydd y Gronfa yn ceisio rhagor o wybodaeth gan Sir y Fflint am hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried y diweddariad a gwneud sylwadau
(b) Nododd y Pwyllgor y gofyniad i ymestyn y terfynau amser mewn perthynas â gweithredu buddion goroeswyr (A6) fel yr amlinellwyd ym mharagraff 1.01.
(c) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r defnydd o weithdrefn dirprwyaeth frys i symud ymlaen ag eitemau A3 (Polisi tan/gordalu) ac A8 (cysoni GMP).

## 94 DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU

Nodwyd yr adroddiad ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach. Nododd Mrs Fielder o safbwynt y Gronfa nad yw'r Templedi Tryloywder Costau Newydd mor dryloyw â'r rhai yr oedd y Gronfa yn eu cynhyrchu. I godi ymwybyddiaeth, mae Mrs Fieder mewn cyswllt â'r PLSA a'r LGA gan ei bod yn credu efallai bod problem gyda'r templedi.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Ystyriodd a nododd y Pwyllgor yr adroddiad ar gyfer cyfrifoldebau dirprwyol.

## 95 DIWEDDARIAD AR YR ECONOMI A'R FARCHNAD A Y STRATEGAETH FUDDSODDI A CHRYNODEB GAN Y RHEOLWR

Nodwyd yr adroddiad ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nododd y Pwyllgor ddiweddariad y Farchnad ac Economaidd ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019, sy'n nodi'r sefyllfa ar gyfer y Strategaeth Fuddsoddi a chrynodeb Perfformiad Rheolwyr.
(b) Nododd y Pwyllgor y Strategaeth Fuddsoddi a chrynodeb Perfformiad Rheolwyr ar gyfer y chwarter a ddaeth i ben ar 30 Medi 2019.

96 **Y WYBODAETH DDIWEDDARAF O RAN CYLLIDO, LLWYBR CYRRAEDD TARGED A FFRAMWAITH RHEOLI RISG**

Nodwyd yr adroddiad ac ni chafwyd unrhyw gwestiynau pellach.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodwyd yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â chyllido (ar hyn o bryd ar dybiaethau sy'n cyd-fynd â phrisiad 2016) a'r sefyllfa o ran mantoli ar gyfer y Gronfa, a'r cynnydd a wnaed ar y gwahanol elfennau o'r Fframwaith Rheoli Risg.
(b) Nodwyd effaith y strategaeth amddiffyn ecwiti.
(c) Nododd y Pwyllgor bod unrhyw risg arian cyfred sy'n gysylltiedig â gwerth y farchnad ar gyfer portffolio ecwiti synthetig gyda'r strategaeth Llwybr Cyrraedd Targed wedi'i fantoli, mae mantoli pellach wedi'i osod ar ddaliad ecwiti ffisegol marchnad ddatblygedig y Gronfa.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod i'r cyfarfod a darparu'r wybodaeth diweddaraf. Cynhelir cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor ar 11 Chwefror.

(Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 am a daeth i ben am 1.00 pm)

..................................................

**Cadeirydd**